# Polisi Gyrru

## Cynnwys

# Cynnwys


1. Datganiad Polisi ..... 2
2. Cwmpas ..... 2
3. Gwybodaeth a Chanllawiau Cysylltiedig y Brifysgol ..... 3
4. Deddfwriaeth a Chodau Ymarfer ..... 4
5. Diffiniadau ..... 4
   - Taith yn gysylltiedig â gwaith ..... 4
   - Gyrrwr Galwedigaethol ..... 5
   - Cerbyd Prifysgol ..... 5
   - Cerbyd Preifat ..... 5
   - Bws Mini ..... 5
6. Cyfrifoldebau ..... 5

6.1 Yr Is-Ganghellor a Grŵp Gweithredol y Brifysgol ..... 5

6.2 Rheolwyr Llinell (gan gynnwys Dirprwy Is-Gangellorion Cyfadran, Penaethiaid Adrannau Academaidd a Gwasanaeth Proffesiynol) ..... 6

6.3 Isadran Teithio a Fflyd ..... 6

6.4 Gyrwyr Galwedigaethol ..... 7

7. Canllawiau Ychwanegol ..... 8

7.1 Defnyddio eich Cerbyd eich Hun ..... 8

7.2 Ffonau Symudol a Dyfeisiau Cyfathrebu ..... 9

7.3 Nwyddau Peryglus ..... 9

7.4 Alcohol, Cyffuriau a Meddyginiaeth ..... 9

7.5 Gyrwyr galwedigaethol Cerbydau Arbenigol ..... 10

7.6 Gyrwyr Bws Mini ..... 10

7.7 Tynnu Ôl-gerbydau ..... 10

7.8 Dirwyon, Tollau a Chostau ..... 11

7.9 Troseddau Goryrru a Digwyddiadau ar Ochr y Ffordd ..... 11

8. Asesiadau Risg ..... 11
9. Adolygu ..... 12

## 1. Datganiad Polisi

Bydd y Brifysgol yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gyrru'n ymwneud â gwaith sydd o dan ei rheolaeth mewn ffordd fydd yn lliniaru'r risgiau i yrwyr galwedigaethol a phobl eraill y gallai gweithgareddau gyrru'n gysylltiedig â gwaith effeithio arnynt.

Bydd y Brifysgol yn cyflawni'r polisi drwy:

- Asesu risgiau sylweddol yn gysylltiedig â gweithgareddau gyrru'n ymwneud â gwaith a chyflwyno mesurau rheoli i leihau'r risgiau hyn i lefel oddefol
- Caniatáu i bobl â'r cymhwysedd angenrheidiol yn unig i yrru cerbydau o eiddo'r Brifysgol neu a brydlesir ganddi
- Darparu cyngor ac arweiniad i yrwyr galwedigaethol i ddiwallu'r cyfrifoldebau cyfreithiol a osodir arnynt gan ddeddfwriaeth berthnasol
- Sicrhau bod pobl sy'n gyrru eu cerbydau eu hunain ar fusnes y Brifysgol yn gwneud hynny'n gyfreithlon drwy ddarparu cyngor ac arweiniad perthnasol a gwiriadau cyfnodol (e.e. trwyddedau gyrru, yswiriant a dogfennau eraill)
- Rheoli cerbydau sy'n eiddo i'r Brifysgol ac a brydlesir ganddi i sicrhau eu bod yn cael eu cadw mewn cyflwr addas i'r ffordd yn unol ag unrhyw ofynion statudol. Os yw cerbydau'n methu â bodloni'r safon, ni chânt eu defnyddio hyd nes y bydd y cyfryw ddiffygion wedi'u cywiro
- Gwahardd gyrwyr galwedigaethol rhag defnyddio ffonau symudol a dyfeisiau cyfathrebu â llaw pan fyddant yn cyflawni unrhyw weithgareddau gyrru'n ymwneud â gwaith, ar dir y Brifysgol yn ogystal ag ar briffyrdd cyhoeddus
- Hyrwyddo defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a rhannu ceir lle bo'n ymarferol

Mae'r Brifysgol yn ystyried bod eich Iechyd a'ch Diogelwch chi ac unrhyw un sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gyrru yn flaenoriaeth. Mae'r polisi hwn yn egluro'r hyn y gall aelodau o staff ac eraill ei ddisgwyl gennym ni a'r hyn rydym ni'n ei ddisgwyl gennych chi wrth reoli eich gweithgareddau a'ch teithiau'n gysylltiedig â gwaith.

## 2. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn gymwys ar gyfer gyrru unrhyw fath o gerbyd ac mae'n berthnasol i'r holl staff sy'n gyrru ar fusnes y Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys:

- Gweithwyr sy'n gorfod gyrru cerbydau fel rhan hanfodol o'u gwaith (e.e. staff, meysydd ymchwil Academaidd a Gwasanaeth Proffesiynol); neu
- Gweithwyr sy'n gyrru cerbydau eraill y Brifysgol, neu eu cerbyd eu hunain neu gerbydau a logir fel rhan o'u gwaith i gyflawni rhyw agwedd ar fusnes y Brifysgol (e.e. staff yn mynychu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau, neu'n teithio i gyrchfannau oddi ar y safle ar gyfer ymchwil neu waith maes neu weithgareddau eraill y Brifysgol). Mae hyn yn cynnwys unrhyw weithgareddau gyrru'n ymwneud â gwaith a allai ddigwydd dramor.

Mae teithiau cymudo rhwng cyfeiriad cartref neu breswylfa gweithwyr a'u man gwaith arferol y tu hwnt i gwmpas y polisi hwn.

Gallai fod angen ystyriaeth ychwanegol ar risgiau'n gysylltiedig â chario llwythau penodol (mawr, afreolaidd neu annormal), sylweddau peryglus, gweithgareddau codi (o fewn cwmpas rheoliadau LOLER) neu weithgareddau tebyg. Ceir rhagor o wybodaeth yn y polisi, safonau a chanllawiau iechyd a diogelwch.

Mae'r polisi hwn yn gymwys i fyfyrwyr os gofynnir iddynt yrru ar fusnes y Brifysgol neu sy'n gyrru fel rhan o weithgaredd a reolir neu a drefnir gan y Brifysgol. Mae gweithgareddau gyrru gan fyfyrwyr ar ran Undeb y Myfyrwyr (er enghraifft, gyrru bysiau mini fel rhan o weithgaredd clwb neu gymdeithas) yn dod dan reolaeth Undeb y Myfyrwyr ac felly wedi'u heithrio o'r polisi hwn.

Byddai gwirfoddolwyr neu unigolion eraill y gellid gofyn iddynt yrru ar fusnes y Brifysgol (er enghraifft i gefnogi gweithgaredd) fel arfer yn cael eu cyfrif yn weithwyr a byddai angen iddynt gydymffurfio â'r holl brotocolau a gweithdrefnau drwy gydol y gweithgaredd neu'r digwyddiad.

## 3. Gwybodaeth a Chanllawiau Cysylltiedig y Brifysgol

Cyn gyrru ar fusnes y Brifysgol mae'n hanfodol eich bod yn darllen ac yn ymgyfarwyddo â'r Llawlyfr Diogelwch i Yrwyr sy'n darparu canllawiau ar gyfer pob gyrrwr.

Rhestrir canllawiau a llawlyfrau ar gyfer grwpiau penodol o gerbydau ac ystyriaethau diogelwch eraill isod.

**Llawlyfr Bws Mini** - mae'r canllaw hwn ar gyfer unrhyw un sy'n gyrru bws mini gan gludo teithwyr ar ran y Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr.

**Cerbydau Arbenigol** – mae'r canllaw hwn yn berthnasol i yrwyr galwedigaethol faniau, cerbydau cynnal a chadw tiroedd a cherbydau amaethyddol.

**Polisi Teithio'r Staff** – mae'r polisi hwn yn gymwys i'r holl staff sy'n mynd neu sy'n bwriadu mynd ar deithiau hir sylweddol neu deithio tramor.

**Polisi Gweithio Arunig** - mae'r polisi hwn yn gymwys i unrhyw yrwyr galwedigaethol fydd yn cyflawni teithiau ar eu pen eu hunain neu'n gweithio ar eu pen eu hunain.

**Ôl-Gerbydau a Thynnu**- mae'r polisi hwn yn gymwys i unrhyw yrwyr galwedigaethol sy'n gyrru cerbyd gydag unrhyw fath o ôl-gerbyd.

**Polisi Tywydd Anffafriol** – mae'r polisi hwn yn gymwys i'r holl yrwyr galwedigaethol a staff.

**Polisi Cyffuriau ac Alcohol** - mae'r polisi hwn yn gymwys i'r holl yrwyr galwedigaethol a staff.

## 4. Deddfwriaeth a Chodau Ymarfer

Daw'r ddeddfwriaeth sy'n gymwys ar gyfer gyrru a cherbydau ac sy'n atgyfnerthu'r polisi hwn o Ddeddf Traffig Ffordd 1988 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1991; Rheoliadau Cerbydau Ffordd (Adeiladu a Defnydd) 1986; Rheoliadau Cerbydau Modur (Trwydded Yrru) 1999, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelwch y Ffordd 2006.

Dylid cofio hefyd bod deddfwriaeth iechyd a diogelwch, gan gynnwys Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, ynghyd â Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith (PUWER) 1998, yn gymwys i'r holl deithiau'n gysylltiedig â gwaith ac i gerbydau sy'n gweithredu yn y gweithle ac o'i gwmpas.

Mae'n bosibl y caiff yr holl ddeddfau uchod eu diwygio ymhellach a byddant yn gymwys yn yr un modd.

Ceir arweiniad yn 'Rheolau'r Ffordd Fawr', a phennir mai dyma'r Cod Ymarfer perthnasol i'r holl yrwyr galwedigaethol.

Mae'n ofyniad bod unrhyw un sy'n gyrru ar fusnes y Brifysgol yn gorfod gyrru'n unol â Rheolau'r Ffordd Fawr. Dylid cofio bod yr adrannau yn Rheolau'r Ffordd Fawr sy'n datgan '**Rhaid**' neu '**Rhaid Peidio'** yn bwyntiau cyfreithiol. Rhaid cofio nad yw anwybodaeth o'r gyfraith yn esgus a bod gyrwyr galwedigaethol yn gyfrifol yn bersonol os ydynt yn torri unrhyw gyfraith traffig.

Cyfrifoldeb y Brifysgol yw sicrhau bod yr holl ofynion cyfreithiol yn cael eu bodloni ar gyfer gyrru'r cerbyd/au, gan gynnwys cerbydau a gyflenwir gan y Brifysgol a cherbydau preifat a ddefnyddir ar gyfer busnes y Brifysgol.

## 5. Diffiniadau

**Taith yn gysylltiedig â gwaith**
Caiff unrhyw daith arall a wnewch ar ran y Brifysgol, beth bynnag ei hyd neu amlder, boed yn eich cerbyd eich hun, os caniateir hynny, neu mewn cerbyd a ddarperir gan y Brifysgol, ei hystyried yn daith yn gysylltiedig â gwaith.

Ni chaiff cymudo o'ch cartref i'ch man/nau gwaith arferol ac yn ôl ei ystyried yn gysylltiedig â gwaith. Yr eithriad i'r rheol hon yw os ydych chi'n dargyfeirio o'ch man/nau gwaith arferol i fynd i apwyntiad neu dasg ar ôl gadael eich cartref. Ni chaiff hyn ei ystyried yn gymudo arferol, ac felly ystyrir y daith gyfan yn gysylltiedig â gwaith. Yn yr un modd, os ydych chi'n gadael eich man/nau gwaith arferol ac yn mynd i apwyntiad neu dasg ar eich ffordd adref, caiff y daith gyfan ei hystyried yn gysylltiedig â gwaith.

**Gyrrwr Galwedigaethol**
Unrhyw weithwyr, myfyrwyr neu gontractwyr allanol - (sydd â chontract penodol o gyflogaeth gyda'r Brifysgol), ac fel rhan o'u rôl y disgwylir iddynt ymgymryd â gyrru'n gysylltiedig â gwaith ar gyfer neu ar ran y Brifysgol mewn cerbyd Prifysgol.

**Cerbyd Prifysgol**
Unrhyw gerbyd neu beiriant (peiriant torri gwair, fforch godi, rhaw lwytho, llwythwr telesgopig, ysgubwr mecanyddol ac ati) y mae'r Brifysgol yn berchen arno, yn ei brydlesu, ei logi neu ei weithredu.

**Cerbyd Preifat**
Unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan weithiwr neu fyfyriwr ar gyfer busnes y Brifysgol nad yw'r Brifysgol yn berchen arno, yn ei brydlesu neu ei logi.

**Bws Mini**
Cerbyd a all gludo rhwng 9-16 o deithwyr (yn gynwysedig) ar unrhyw adeg yn ogystal â'r gyrrwr galwedigaethol.

## 6. Cyfrifoldebau

Mae'r adrannau canlynol yn egluro'r cyfrifoldebau i weithredu unrhyw gerbyd neu gyfarpar cysylltiedig yn ddiogel, yn gyfreithlon ac mewn cydymffurfiaeth â'r polisi hwn.

## 6.1 Yr Is-Ganghellor a Grŵp Gweithredol y Brifysgol

Yr Is-Ganghellor, fel Prif Swyddog Gweithredol y Brifysgol, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am hyrwyddo, gweinyddu a gweithredu Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol ac unrhyw Safonau Polisi cysylltiedig. Cefnogir yr Is-Ganghellor yn y cyfrifoldeb dydd i ddydd hwn gan Grŵp Gweithredol y Brifysgol, yn unol â strwythur rheoli'r Brifysgol. Mae'n ofynnol gan yr Is-Ganghellor ac aelodau Grŵp Gweithredol y Brifysgol fod pawb sydd â chyfrifoldebau rheoli neu oruchwylio'n ymarfer trosolwg a rheolaeth ddigonol i'w bodloni eu hunain bod ystyriaeth ddyledus yn cael ei rhoi i ofynion y Polisi Iechyd a Diogelwch o fewn y meysydd neu ar gyfer y gweithgareddau sydd dan eu rheolaeth neu gyfarwyddyd.

## 6.2 Rheolwyr Llinell (gan gynnwys Dirprwy Is-Gangellorion Cyfadran, Penaethiaid Adrannau Academaidd a Gwasanaeth Proffesiynol)

Y Dirprwy Is-Gangellorion Cyfadran a Phenaethiaid Adrannau Academaidd a Gwasanaeth Proffesiynol sy'n gyfrifol am weithredu trefniadau addas yn eu Cyfadrannau neu Adrannau ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch yn effeithiol, gan gynnwys:

Gweithredu systemau i sicrhau:

- Bod gan yrwyr galwedigaethol y trwyddedau, hyfforddiant a chymwysterau angenrheidiol i yrru cerbydau sy'n eiddo i'r Brifysgol neu mae'n eu prydlesu. Os bydd gyrrwr galwedigaethol yn datgelu bod eu trwydded wedi'i dirymu, ei hatal neu dynnu'n ôl am unrhyw reswm neu os yw'n datgelu nad yw'n ffit yn feddygol i yrru, yna rhaid eu rhyddhau o'u dyletswyddau gyrru'n gysylltiedig â gwaith hyd nes y ceir cyngor pellach gan Adran Adnoddau Dynol ac Isadran Teithio a Fflyd y Brifysgol.
- Bod cerbydau a reolir gan adrannau unigol sy'n eiddo i'r Brifysgol neu y mae'n eu prydlesu yn cael eu cynnal mewn cyflwr sy'n addas i'r ffordd ac i gadw'r warant a disgwyliad oes, yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw yn unol â'r cyfnodau a argymhellir gan y gwneuthurwr. Os canfyddir neu amheuir nad yw cerbydau'n bodloni gofynion statudol o ran bod yn addas i'r ffordd, cânt eu tynnu ôl o gael eu defnyddio hyd nes y gellir cywiro unrhyw ddiffygion.
- Bod asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer pob taith yn gysylltiedig â gwaith (i gyd-fynd â'r math o gerbyd, gan gynnwys unrhyw gyfarpar arbenigol sydd wedi'i gysylltu â'r cerbyd neu sydd i'w gludo ynddo) a bod mesurau rheoli'n cael eu nodi a'u rhoi ar waith. Gallai hyn gynnwys hyrwyddo defnydd o drafnidiaeth amgen, darparu hyfforddiant, goruchwyliaeth ac offer angenrheidiol, gan gynnwys offer diogelu personol, i yrwyr galwedigaethol er mwyn lleihau risgiau sylweddol i lefel oddefol.
- Bod asesiadau risg gyrru'n gysylltiedig â gwaith yn cael eu monitro a'u diweddaru fel bo'r angen o leiaf yn flynyddol.
- Bod isadran Teithio a Fflyd y Brifysgol yn cael ei hysbysu, ymlaen llaw, am unrhyw gynigion i brynu neu logi cerbydau newydd.
- Bod atodlenni gwaith yn cael eu monitro i sicrhau nad yw arferion gyrru diogel yn cael eu cyfaddawdu, er enghraifft drwy oriau gwaith gormodol a allai arwain at ludded neu flinder.
- Bod y polisi hwn yn cael ei gyfleu a'i hyrwyddo i'r holl aelodau o staff sy'n ymgymryd â theithiau'n gysylltiedig â gwaith ar ran y Brifysgol, waeth pwy sy'n berchen ar y cerbyd.

Yn ogystal, dylid ystyried hyrwyddo defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer gweithgareddau gyrru'n ymwneud â gwaith lle bo'n ymarferol.

## 6.3 Isadran Teithio a Fflyd

Mae'r Isadran Teithio a Fflyd yn gyfrifol am gynorthwyo adrannau gyda materion yn ymwneud â'r fflyd a chydymffurfiaeth gyrru. Mae'r isadran yn rhan o'r adran Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd ac yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â'r polisi hwn. Yn ogystal, ceir monitro rhagweithiol gan y Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd drwy'r atodlen archwilio a'r gyfundrefn arolygu a monitro adweithiol drwy ymchwiliadau i ddigwyddiadau a hawliadau yswiriant. Bydd yr isadran yn cynnal systemau, prosesau a chronfeydd data (gan sicrhau cydymffurfiaeth lawn â GDPR) i hyrwyddo gyrru diogel ar draws y Sefydliad. Mae hyn yn cynnwys:

- Cynnal y rhestr o yrwyr galwedigaethol cymeradwy'r Brifysgol, ynghyd â gwiriadau dogfennau angenrheidiol, er enghraifft trwyddedau gyrru ac yswiriant lle bo'n briodol
- Cynhelir gwiriad trwydded yrru bob 12 mis fel rhan o geisiadau Awdurdodedig, Fflyd Llwyd neu Gyfunol. Os nodir bod gan drwydded mwy na 3 phwynt, gallech fod yn destun gwiriadau mwy aml.
- Cysylltu â'r Adran Gyllid i sicrhau bod ceisiadau hawlio milltiroedd yn dod gan yrwyr galwedigaethol cymeradwy perthnasol.
- Asesu anghenion gyrru a phrofiad unigol i ddarparu hyfforddiant yn unol â'r math o gerbyd a gaiff ei yrru at ddibenion gwaith a rolau swyddi.
- Casglu data ar wrthdrawiadau, troseddau gyrru a damweiniau agos i sicrhau gwelliant parhaus ac adolygu'r polisi hwn.
- Rheoli a dilyn hawliadau yswiriant ar gyfer cerbydau'r Brifysgol ac unrhyw gerbyd sydd wedi'i gymeradwyo i'w logi ar fusnes y Brifysgol.

## 6.4 Gyrwyr Galwedigaethol

Pryd bynnag y byddwch yn gyrru ar fusnes y Brifysgol neu'n gyrru cerbyd sy'n eiddo i'r Brifysgol rhaid i chi gofnodi manylion y daith yn llyfr log y cerbyd a ddarperir. Rhaid i chi beidio â gwneud hynny dan amodau rydych chi neu'r Brifysgol yn pennu eu bod yn anghyfreithlon neu'n anniogel. Byddwch yn gwneud hyn drwy wneud y canlynol:

### Cyffredinol

- Darllen, deall a chadw at y polisi hwn
- Bod yn gyfarwydd a chadw at unrhyw gyngor, gofyniad neu ganllawiau a geir yn y Llawlyfr Diogelwch Gyrwyr Galwedigaethol sy'n berthnasol i'ch grŵp cerbydau
- Cydymffurfio ag asesiad risg a systemau'r Adran neu'r Gyfadran yn ymwneud â gweithgareddau gyrru'n gysylltiedig â gwaith

### Y Gyrrwr

- Bod yn gyfrifol ac yn atebol am eich gweithredoedd eich hun wrth yrru
- Sicrhau eich bod yn ffit yn feddygol i yrru a bodloni'r safonau golwg i yrru (neu yn meddu ar ac yn defnyddio'r offer cywiro priodol). Rhaid i chi allu darllen (gyda sbectol neu lensys cyffwrdd os oes angen) rhif cerbyd a gynhyrchwyd ar ôl 1 Medi 2001 o 20 metr. Trefnwch brawf llygaid a hysbyswch eich rheolwr llinell os nad ydych chi'n gallu darllen rhif o 20 metr, oherwydd gallech fod yn gyrru'n anghyfreithlon. Rhaid i chi hefyd hysbysu eich rheolwr llinell os oes unrhyw newid yn eich iechyd a allai effeithio ar eich gyrru ac yn benodol os ydych chi'n dioddef unrhyw gyflyrau meddygol hysbysadwy i'r DVLA neu os ydych chi'n cymryd meddyginiaeth ragnodedig a allai effeithio ar eich gyrru neu eich gallu i weithredu offer neu beiriannau'n ddiogel.
- Meddu ar y drwydded, hyfforddiant neu gymhwyster priodol arall ar gyfer y cerbyd y bydd gofyn i chi ei yrru. Rhaid i chi dynnu sylw eich rheolwr llinell ar unwaith at unrhyw wybodaeth a allai effeithio ar eich gallu i yrru. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i;

gwaharddiadau neu euogfarnau (gan gynnwys rhai sydd i ddod) am droseddau gyrru neu unrhyw ataliad neu ddiddymu eich trwydded, er enghraifft unrhyw droseddau traffig ardystiedig neu gyfyngiadau sydd wedi'u gosod ar eich trwydded yrru.

- Sicrhau eich bod yn gyfarwydd ac yn hyderus i yrru unrhyw gerbyd sydd ar fin cael ei ddefnyddio. Os oes unrhyw amheuaeth, cysylltwch â'ch Rheolwr Llinell cyn gwneud neu barhau ag unrhyw daith. Rhaid i chi fod yn gyfarwydd ag unrhyw gyfarwyddiadau/canllawiau gweithredu yn gysylltiedig â'r cerbyd, yn enwedig cerbydau/offer arbenigol yn gysylltiedig â chynnal a chadw tiroedd a/neu gerbydau amaethyddol.

### Y Cerbyd

- Sicrhau bod pob cerbyd yn ddiogel ac yn addas i'r ffordd cyn ei ddefnyddio a lle bo'n briodol, gyfeirio at lawlyfr gweithredu'r cerbyd neu'r canllawiau gweithredu llwythi diogel a dylech bob amser gynnal gwiriad namau cyn teithio dyddiol cyn defnyddio am y tro cyntaf.
- Hysbysu eich rheolwr llinell am bob diffyg ar Gerbydau'r Brifysgol (o'i heiddo, wedi'u llogi a'u prydlesu). Dim ond pan fydd cerbyd yn ddiogel ac yn gyfreithlon i'w ddefnyddio y gellir dechrau taith.
- Meddu ar Drwydded Cronfa Ffyrdd (Treth), tystysgrif y Weinyddiaeth Drafnidiaeth (M.O.T) a thystysgrif LOLER ddilys lle bo'n briodol.

### Y Daith

- Ystyried defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu gerbyd y brifysgol yn hytrach na'ch cerbyd eich hun wrth deithio ar fusnes y Brifysgol.
- Cynllunio eich taith i adael digon o amser i gyrraedd eich cyrchfan yn ddiogel ac yn gyfreithlon, a gadael digon o amser am seibiau ar deithiau hirach. Dylech ystyried yr amodau tywydd a ffactorau eraill a allai effeithio ar hyd eich taith.
- Cydymffurfio ag unrhyw ofynion statudol a osodir arnoch gan ddeddfwriaeth diogelwch ffordd neu ddeddfwriaeth arall gan gynnwys gwisgo gwregys diogelwch, peidio â defnyddio ffôn symudol â llaw wrth yrru a pheidio ag ysmygu yng ngherbydau'r Brifysgol nac ar unrhyw daith yn ymwneud â gwaith.
- Hysbysu am unrhyw wrthdrawiadau lle ceir difrod i gerbyd y brifysgol neu gerbyd a/neu eiddo trydydd parti. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau wrth yrru ar ran y Brifysgol mewn unrhyw gerbyd arall; unrhyw achosion o ddamweiniau agos wrth yrru ar ran y gwaith. Rhaid hysbysu eich rheolwr llinell a'r isadran Teithio a Fflyd am y rhain (gan gynnwys digwyddiadau lle na cheir difrod nac anaf) gan ddilyn gweithdrefn hysbysu digwyddiadau'r Brifysgol. Os yw'n berthnasol, rhaid hysbysu'r Heddlu hefyd.

## 7. Canllawiau Ychwanegol

### 7.1 Defnyddio eich Cerbyd eich Hun

Dywed y gyfraith mai cyfrifoldeb y gyrrwr galwedigaethol yw sicrhau bod unrhyw gerbyd a gaiff ei yrru ar y briffordd gyhoeddus yn ddiogel ac yn addas i'r ffordd. Os yw gweithwyr yn defnyddio eu cerbyd preifat eu hunain ar gyfer busnes gwaith, eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod gan y cerbyd Drwydded Cronfa Ffyrdd (Treth) a thystysgrif MOT ddilys (lle bo'n berthnasol) a'i fod wedi'i yswirio i'w ddefnyddio ar gyfer busnes eich cyflogwr ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol mewn cyflwr

cyfreithiol ac addas i'r ffordd. I wirio a oes gan eich cerbyd Dreth ac MOT dilys, ewch yma.

Dylai gyrwyr gynnal gwiriad namau dyddiol ar eu cerbyd cyn ei ddefnyddio am y tro cyntaf i sicrhau ei fod yn addas i'r ffordd. Mae rhestrau gwirio i'w cael yma.

## 7.2 Ffonau Symudol a Dyfeisiau Cyfathrebu

Fe'ch cynghorir i sicrhau bod gennych fodd i alw am gymorth pan fyddwch ar deithiau'n gysylltiedig â gwaith, gallai hyn fod yn ffôn symudol neu radio. Rhaid dilyn y canlynol ar bob achlysur:

- Rhaid i chi wneud neu dderbyn galwadau fel y caniateir yn ôl y gyfraith yn unig - dywed y gyfraith fod rhaid i chi fod wedi parcio'n ddiogel gyda'r injan wedi'i ddiffodd NEU fod rhaid i chi alw 999 neu 112 mewn argyfwng, a'i bod yn anniogel neu'n anymarferol i stopio.
- Ni chaniateir defnyddio ffôn symudol na dyfais cyfathrebu ryngweithiol wrth yrru, ar gyfer gwneud neu dderbyn galwadau ffôn, anfon negeseuon, neu ddefnyddio apiau wrth yrru. Yr unig eithriad lle nad yw gyrrwr yn torri'r rheoliadau'n ymwneud â defnydd yw os bydd y ffôn symudol neu'r ddyfais gyfathrebu ryngweithiol yn cael ei defnyddio i wneud taliad digyffwrdd ar derfynell talu digyffwrdd tra bo'r cerbyd yn llonydd.
- Dylech aros mewn man diogel a chyfleus bob amser a diffodd injan y cerbyd i wneud neu dderbyn galwad ffôn/radio. Gwnewch yn siŵr nad ydych yn peri anghyfleustra i ddefnyddwyr ffyrdd eraill wrth ddewis lleoliad i aros.
- Fe'ch cynghorir i beidio â chynnal sgwrs symudol lawrydd wrth yrru oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol a rhaid i'r cerbyd barhau dan eich rheolaeth ar bob achlysur. Mae gan yr heddlu'r grym i'ch stopio os ydynt yn credu bod eich sylw wedi'i dynnu drwy ddefnyddio ffôn symudol wrth yrru, hyd yn oed os yw'n gwbl lawrydd.

## 7.3 Nwyddau Peryglus

Caniateir cludo nwyddau peryglus fel y'i dosberthir gan Reoliadau Cludo Nwyddau Peryglus UNECE yng ngherbydau'r Brifysgol dim ond ar ôl sicrhau cytundeb ymlaen llaw gyda'ch rheolwr llinell. Mae angen asesiad risg ffurfiol i ategu pob gweithgaredd o'r fath

## 7.4 Alcohol, Cyffuriau a Meddyginiaeth

RHAID I CHI BEIDIO dan unrhyw amgylchiadau â gyrru dan ddylanwad alcohol, cyffuriau a'r hyn a elwir yn sylweddau 'anterth cyfreithlon'. Mae polisi Cyffuriau ac Alcohol y Brifysgol i'w gweld yma.

Byddai unrhyw euogfarn yn gysylltiedig â hyn yn cael ei ystyried yn Gamymddwyn Difrifol a gallai arwain at ddiswyddo. Caiff euogfarn am fethu â darparu sbesimen diod/cyffuriau i'r Heddlu ei ystyried yn unol â Pholisi a Gweithdrefn Disgyblaeth y Brifysgol sy'n gymwys i'r holl staff.

Pwysig - Nid yw'r gyfraith yn gwahaniaethu rhwng cyffuriau anghyfreithlon a chyffuriau ar bresgripsiwn/dros y cownter. Os nad ydych chi'n siŵr, gwiriwch gyda'ch meddyg teulu/ymarferydd meddygol/fferyllydd.

## 7.5 Gyrwyr galwedigaethol Cerbydau Arbenigol

Mae gan y Brifysgol fflyd amrywiol o gerbydau, yn enwedig y rheini a yrrir ar gyfer Cynnal a Chadw'r Tiroedd, IBERS a Ffermydd.

Os yw eich rôl yn golygu bod angen i chi yrru unrhyw gerbyd arbenigol, neu weithredu unrhyw gyfarpar perthnasol ar wahân i gar safonol neu fan fach, rhaid i chi gael cyngor gan eich Rheolwr Llinell a dilyn unrhyw hyfforddiant neu brosesau ymgyfarwyddo sydd ar waith.

## 7.6 Gyrwyr Bws Mini

Mae angen lefel uchel o gymhwysedd ac ystyriaeth i yrru bws mini oherwydd:

- Gall y cerbyd fod yn fwy a/neu'n drymach (angen pellter stopio uwch);
- Gellir cludo mwy o deithwyr nag arfer, a all arwain at gynyddu straen ar y gyrrwr h.y. cyfrifoldeb ychwanegol, sŵn a thynnu sylw
- Mae bysiau mini'n tueddu i gael eu defnyddio ar deithiau pell ac yn anaml.

Y gofyniad cyfreithiol mewn perthynas â chymwysterau yw y gall gyrwyr galwedigaethol a gafodd eu trwydded yrru lawn cyn 1 Ionawr 1997 yrru bws mini yn y DU. Mae'r rheini a gafodd eu trwydded ar 1 Ionawr 1997 neu'n hwyrach yn drwyddedig i yrru cerbyd gyda hyd at 8 teithiwr yn unig. I yrru bws mini, efallai y bydd angen i yrwyr galwedigaethol gael hawl trwydded yrru categori D1 ar eu trwydded. Ceir manylion cynhwysfawr yn y Llawlyfr Bws Mini neu drwy'r ddolen hon.

## 7.7 Tynnu Ôl-gerbydau

Mae tynnu a defnyddio ôl-gerbydau'n anodd a dylid ei wneud gan unigolion cymwys, profiadol yn unig, a lle bo'n gymwys dylid ymgymryd â hyfforddiant. Rhaid i yrwyr feddu ar y categori hawl trwydded yrru cywir, deall y risgiau, y gofynion a'r cyfyngiadau o ran pa lwythi y gellir/na ellir eu cludo neu eu tynnu. Os oes gan ôl-gerbyd unrhyw gyfarpar sefydlog, rhaid i yrwyr fod wedi derbyn hyfforddiant ar sut i weithredu'r cyfarpar.

Rhaid i bob llwyth bob amser fod yn ddiogel cyn ac yn ystod cludiant. Dylid gwirio llwythi'n gyfnodol yn ystod taith, yn enwedig teithiau hir, wrth deithio ar dir anwastad neu wrth gludo llwythi afreolaidd. Mae'r math o lwyth a diogelwch y llwyth hefyd yn gymwys i unrhyw lwyth a gludir mewn cerbyd. Rhaid cynnal gwiriad namau dyddiol ar yr ôl-gerbyd cyn ei ddefnyddio am y tro cyntaf. Pan gaiff llwyth ei ychwanegu i ôl-gerbyd, ei dynnu neu ei ddiwygio, rhaid iddo fod yn ddiogel.

Waeth pa mor fyr yw'r daith neu hyd yn oed wrth symud yn y cyrchfan rhaid i'r cerbyd neu'r ôl-gerbyd fod yn ddiogel bob amser.

Ceir rhagor o wybodaeth am dynnu ôl-gerbydau a diogelu llwythi yma:

https://www.gov.uk/government/publications/load-securing-vehicle-operator-guidance/load-securing-vehicle-operator-guidance

https://www.gov.uk/towing-with-car

## 7.8 Dirwyon, Tollau a Chostau

- Wrth barcio cerbyd, rhaid i weithwyr sicrhau bod y cerbyd wedi'i barcio'n gyfreithlon mewn man priodol a diogel. Rhaid peidio â chaniatáu i gerbydau achosi rhwystr ar y Brifffordd (mae hyn yn cynnwys unrhyw lwybr troed oni nodir yn wahanol ar arwyddion).
- Caiff unrhyw dollau neu gostau parcio eu had-dalu yn unol â [pholisi treuliau'r Brifysgol.](#) Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw ddirwyon yn ymwneud â pharcio'n anghyfreithlon, tâl atal tagfeydd, parthau allyriadau isel (LEZ), neu dorri unrhyw delerau/rheolau maes parcio neu dollau.
- Caiff rhai tollau eu casglu drwy'r drefn adnabod rhifau cerbydau yn awtomatig, a chyfrifoldeb y gyrrwr yw naill ai rhagdalu'r costau gyda manylion cywir y rhif cerbyd cyn y daith neu dalu'r doll o fewn y terfyn amser gofynnol yn dilyn y daith. Gellir gwneud hyn drwy drefniant ymlaen llaw gyda'r rheolwr llinell drwy ganolfan gost y brifysgol neu gall y gyrrwr dalu a hawlio'n ôl drwy bolisi treuliau'r brifysgol.

## 7.9 Troseddau Goryrru a Digwyddiadau ar Ochr y Ffordd

- Rhaid hysbysu'r rheolwr llinell am bob trosedd goryrru (boed cwrs ymwybyddiaeth cyflymdra yn cael ei ddilyn ai peidio), euogfarnau i ddod yn ymwneud â gyrru neu unrhyw beth a allai effeithio ar allu gyrrwr i yrru, mewn modd rhesymol ac amserol. Y gyrrwr sy'n gyfrifol am unrhyw ddirwyon, apeliadau a chostau cysylltiedig, cyrsiau adsefydlu (cyrsiau ymwybyddiaeth cyflymder neu wregys diogelwch ac ati) yn ymwneud â throseddau a gyflawnwyd wrth yrru cerbyd prifysgol neu ar ran y Brifysgol, ac ni fydd y Brifysgol yn eu talu.
- Os caiff gyrrwr ei stopio gan yr Heddlu neu'r DVSA, mewn perthynas â throsedd neu drosedd bosibl, wrth yrru ar ran y Brifysgol neu mewn cerbyd prifysgol, disgwylir i yrwyr hysbysu eu rheolwr llinell pan fydd yn ddiogel ac yn rhesymol i wneud hynny. Os pennir bod cerbyd yn anaddas i'r ffordd, mae'r gyrrwr yn gyfrifol am hysbysu'r rheolwr llinell. Yna mae'r rheolwr llinell yn gyfrifol am wneud trefniadau i atgyweirio'r cerbyd ar ochr y ffordd neu fynd â'r cerbyd i garej lleol lle bo angen.

# 8. Asesiadau Risg

Dylai asesiadau risg ar gyfer unrhyw weithgaredd gyrru'n ymwneud â gwaith ddilyn yr un egwyddorion â'r rheini ar gyfer unrhyw weithgaredd gwaith arall fel yr amlinellir yng nghanllawiau Asesu Risg y Brifysgol.

Asesiad Risg Gyrru yma

Ar gyfer teithiau neu weithgareddau gyrru sy'n cyflwyno risg neu beryglon ychwanegol dylid cwblhau a chofnodi asesiad mwy manwl. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ble y byddai hyn yn briodol:

- Teithiau hir afreolaidd sy'n cynnwys gyrru dramor
- Gyrru y disgwylir iddo ddigwydd mewn tywydd gwael
- Teithiau sy'n cynnwys gweithio arunig mewn ardaloedd anghysbell neu a allai fod yn beryglus
- Teithiau sy'n cynnwys gyrru mathau o gerbyd na chânt eu gyrru fel arfer neu lle gallai'r gyrrwr galwedigaethol fod yn amhrofiadol neu fod â record wael o ddamweiniau
- Cludo nwyddau neu anifeiliaid peryglus
- Cludo nifer fawr o deithwyr, er enghraifft mewn bws mini

## 9. Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu'n rheolaidd heb fod yn llai na phob dwy flynedd

Llofnodwyd: ______________________________________________

**Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth**

Dyddiad: 17 June 2022